# Awgrymiadau euraidd ar gyfer caffael i swyddfeydd

## 1 A oes angen prynu?

a) Allwch chi rannu yn eich swyddfa? Gall defnyddio dodrefn a nwyddau traul cyffredin megis nwyddau ysgrifennu a chyfarpar cegin arbed prynu, pecynnu a deunyddiau. Siaradwch â'ch cydweithwyr a gweld yr hyn sydd ar gael eisoes.

b) Wyddech chi fod y Grŵp Yammer "University Surplus Furniture and Equipment" yn lle da i ganfod dodrefn a chyfarpar swyddfa sydd bron yn newydd?

c) Meddwl am brynu gwresogydd neu wyntyll? Anfonwch gais i ddesg gymorth Ystadau i weld a allant fynd i'r afael â'r mater yn lle.

## 2 Costau oes gyfan

Ydych chi wedi ystyried effaith amgylcheddol yr hyn rydych yn ei brynu yn ystod ei oes gyfan, o'r deunyddiau a ddefnyddiwyd i'w greu i'w waredu?

a) Meddyliwch am ddefnyddio dodrefn a chyfarpar y mae ganddynt elfen o gynnwys wedi'i ailgylchu e.e. uwchgylchu carpedi a llenni neu ddodrefn.

b) Defnyddiwch bapur a wnaed o ddeunyddiau a ailgylchwyd 100%.

c) Gofynnwch i'r cyflenwyr am gostau oes gyfan a chynlluniau dychwelyd yn ystod y broses brynu yn ogystal â gwaith cynnal a chadw, gwarant neu wasanaethu a allai sicrhau effeithlonrwydd yr eitem.

d) Dylech ddeall yr ynni a ddefnyddir gan yr offer ac unrhyw ffyrdd o leihau hyn, gan gynnwys diffodd, dulliau pŵer isel a chyfraddau sêr ynni.

e) Angen cael gwared ar rywbeth neu ailgylchu? Cliciwch ar y ddolen hon:am ragor o wybodaeth am ailgylchu a gwastraff neu e-bostiwch: estates-waste@abertawe.ac.uk

## 3 Pecynnu

a) Mae anfon sawl eitem ar yr un pryd yn aneffeithlon. Bydd lleihau nifer y nwyddau a'r bocsys sy'n cael eu hanfon ar wahân yn lleihau eich effaith ar yr amgylchedd oherwydd cludiant. Ceisiwch gydlynu gyda chydweithwyr.

b) Gofynnwch am becynnu sy'n ailddefnyddiadwy neu y gellir ei ddychwelyd. Mae cwmnïoedd yn gyfrifol yn gyfreithiol am eu pecynnu. Heriwch y cyflenwr i ddarparu cynllun dychwelyd.

c) Dylech wahanu eich gwastraff pecynnu ar unwaith i wneud lle yn y swyddfa, lleihau risgiau o dân a gwella ailgylchu h.y. rhowch yr holl blastig meddal a'r polystyren yn y biniau gwastraff cyffredinol, plastig caled a cherdyn yn eu biniau ailgylchu perthnasol.

## 4 Manylion cyflenwyr

a) Labelu: Gwiriwch y labeli sy'n gysylltiedig â'r nwyddau rydych chi'n eu prynu: Rhai labeli y dylech fod yn ymwybodol ohonynt:
   a. Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC)

Swansea University | Prifysgol Abertawe | Sustainability | Cynaliadwyedd

    b. Ynni effeithlon – system yn seiliedig ar sêr
    c. Deunyddiau y gellir eu hailgylchu

b) [Gwiriwch yma i weld cyflenwyr cymeradwy'r Brifysgol](). Siaradwch â'ch tîm caffael lleol am ragor o wybodaeth.

c) Byddwch yn ymwybodol o agweddau eraill ar y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys:
    a. Amodau gweithwyr wrth brosesu deunyddiau crai, wrth gynhyrchu, wrth ddosbarthu ac wrth osod
    b. Effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, defnyddio a gwaredu

## 5 Bod yn ymwybodol o ddeunyddiau

a) Ewch yn ddi-bapur, defnyddiwch ddyfeisiau electronig a meddalwedd fel MS Teams i osgoi'r angen i argraffu neu ddefnyddio papur, cysylltwch â GGS i gael rhagor o wybodaeth.

b) Dylech leihau'r defnydd o blastig defnydd untro drwy edrych ar weithgareddau'r swyddfa a dewis opsiynau y gellir eu hailddefnyddio.

c) Dylech ofyn am gyllyll a ffyrc a jygiau gan yr adran arlwyo wrth archebu bwyd a diod neu prynwch rai eich hun.

d) Chwiliwch am gynnyrch y gellir eu hailgylchu. Mae PET a HDPE yn blastigion y gellir eu hailgylchu ar y campws.




## 6 Cysylltu â ni

**Syniad arloesol? Arferion gwaith gwych rydych chi am eu rhannu? Rydym bob amser yn agored i ffyrdd a syniadau newydd o leihau ein heffaith ar yr amgylchedd**

Cysylltwch â ni os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau am brynu cynaliadwy ym Mhrifysgol Abertawe:

- Teifion Maddocks: Swyddog Cynaliadwyedd
- Emily Ingram: Swyddog Cynaliadwyedd
- Hayley Beharrell: Swyddog Cynaliadwyedd

neu anfonwch neges e-bost atom: **sustainability@abertawe.ac.uk**

Mae pwyntiau SWell hefyd ar gael ar gyfer Fy Mhryniadau!

Swansea University Prifysgol Abertawe | Sustainability Cynaliadwyedd